# Ychwanegu Cyrff at Reoliadau presennol ar Safonau'r Gymraeg

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Grŵp Hawl i'r Gymraeg Cymdeithas yr Iaith

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Cymdeithas yr Iaith

e-bost/rhif ffôn: post@cymdeithas.cymru / 01970 624501

Eich cyfeiriad: Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, SY23 1JH

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 7 Hydref i:

Is-adran Cymraeg 2050

Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod: Cymraeg2050@llyw.cymru

e-bost: Cymraeg2050@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – A ydych chi'n cytuno â'r cynigion a nodir ym mharagraff 1.2 o'r ddogfen ymgynghori? Os nad ydych, a oes set arall o reoliadau presennol safonau'r Gymraeg a allai fod yn fwy priodol ar gyfer corff?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Rydyn ni'n cytuno â'r cynigion hyn ac yn gobeithio y byddant, drwy eu safonau llunio polisi, yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth Cymraeg gwasanaethau eraill (e.e. drwy gynllunio a datblygu'r gweithlu a phrif-ffrydio'r Gymraeg o fewn systemau digidol yn y cyrff iechyd) a thrwy eu safonau gweithredu yn darparu mwy o gyfle i staff y cyrff hyn ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.**

**Ond rydyn ni'n gresynu ei bod wedi cymryd cymaint o amser i ddechrau'r broses o ddod â chyn lleied o gyrff o dan Safonau'r Gymraeg. Gresynwn hefyd fod yna gyrff a chategorïau o berson (ee. Cyflenwyr nwy, trydan, gwasanaethau post, gwasanaethau rheilffyrdd, a gwasanaethau telathrebu) sy'n bwysig iawn o ran gallu'r cyhoedd yn gyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd heb ddod o dan y Safonau eto.**

**Cwestiwn 2** – A ydych chi'n cytuno â'r cynnig a nodir ym mharagraff 1.3 o'r ddogfen ymgynghori? Os nad ydych, a oes set arall o reoliadau presennol safonau'r Gymraeg a allai fod yn fwy priodol i awdurdodau iechyd arbennig?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Rydyn ni'n cytuno â'r cynigion hyn ac yn gobeithio y byddant, drwy eu safonau llunio polisi, yn effeithio'n gadarnhaol ar ddarpariaeth Cymraeg gwasanaethau eraill (e.e. drwy gynllunio a datblygu'r gweithlu a phrif-ffrydio'r Gymraeg o fewn systemau digidol yn y cyrff iechyd) a thrwy eu safonau gweithredu yn darparu mwy o gyfle i staff y cyrff hyn ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.**

**Ond rydyn ni'n gresynu ei bod wedi cymryd cymaint o amser i ddechrau'r broses o ddod â chyn lleied o gyrff o dan Safonau'r Gymraeg. Gresynwn hefyd fod yna gyrff a chategorïau o berson (ee. Cyflenwyr nwy, trydan, gwasanaethau post, gwasanaethau rheilffyrdd, a gwasanaethau telathrebu) sy'n bwysig iawn o ran gallu'r cyhoedd yn gyffredinol i ddefnyddio'r Gymraeg mewn bywyd pob dydd heb ddod o dan y Safonau eto.**

**Cwestiwn 3** – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cyflenwi gwasanaethau yn y rheoliadau perthnasol? (Nodwch at ba gorff neu set o reoliadau y mae eich sylwadau'n cyfeirio)

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Fe ddylai'r safonau cyflenwi gwasanaethu gynnwys y defnydd o sgwrsio byw a botiau sgwrsio ar wefannau cyrff.** |

**Cwestiwn 4** – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau llunio polisi yn y rheoliadau perthnasol? (Nodwch at ba gorff neu set o reoliadau y mae eich sylwadau'n cyfeirio)

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Rydyn ni'n cytuno y dylai'r holl safonau llunio polisi yn y rheoliadau perthnasol fod yn benodol gymwys i'r cyrff dan sylw.** |

**Cwestiwn 5** – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau gweithredu yn y rheoliadau perthnasol? (Nodwch at ba gorff neu set o reoliadau y mae eich sylwadau'n cyfeirio)

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Rydyn ni'n cytuno y dylai'r holl safonau gweithredu yn y rheoliadau perthnasol fod yn benodol gymwys i'r cyrff dan sylw.** |

**Cwestiwn 6** – Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y safonau cadw cofnodion a'r safonau sy'n ymdrin â materion atodol yn y rheoliadau perthnasol? (Nodwch at ba gorff neu set o reoliadau y mae eich sylwadau'n cyfeirio)

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| **Rydyn ni'n cytuno y dylai'r holl safonau cadw cofnodion ac atodol yn y rheoliadau perthnasol fod yn benodol gymwys i'r cyrff dan sylw.** |

**Cwestiwn 7** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol diwygio'r rheoliadau safonau'r Gymraeg perthnasol ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**I'r graddau mae'r cyhoedd yn gyffredinol yn dod i gysylltiad â gwaith y cyrff hyn yn eu bywyd bob dydd, ac i'r graddau y bydd eu polisïau nhw yn effeithio ar ddarpariaeth gan gyrff eraill, ac yn cynnig mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, mae'n debyg y bydd diwygio'r rheoliadau yn cynnig mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.**

**Cwestiwn 8** – Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r cynigion er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; a
- nad yw'n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Sylwadau ategol**

**Dim sylw**

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**O ran paragraff 3.4 rydyn ni'n gwrthwynebu bwriad y Lywodraeth i ddatgymhwyso'r safonau hybu yn achos Awdurdod Cyllid Cymru. Nid oes esboniad o'r penderfyniad hwn. Gofynnwn ichi newid hyn er mwyn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i ACC gydymffurfio â'r safonau hybu.**

**Ailadroddwn y pwynt bod angen i'r Llywodraeth symud ymlaen i ddod â'r cyrff hynny sy'n effeithio fwyaf ar fywydau pob dydd pobl Cymru o dan drefn y Safonau fel mater o flaenoriaeth. Rydyn ni wedi aros yn rhy hir i weld darparwyr ynni, systemau telathrebu, gwasanaethau post a'r rheilffyrdd yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg o dan drefn y Safonau. At hynny, mynnwn fod rhagor o gyrff yn y sector preifat sy'n cynnig gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru ee. banciau ac archfarchnadoedd yn cael eu cynnwys ar fyrder.**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐